

Uned Ddata Llywodraeth Leol ~ Cymru

Disgrifiad o'r swydd

Swydd:	Swyddog Data (Mae'r gallu i weithio drwy'r Gymraeg yn angenrheidiol i'r swydd yma)
Lleoliad:	Swyddfeydd Data Cymru, Caerdydd
Cyflog:	Gradd 3 - £21,660 - £26,999
Math o Gontract:	Dros dro (tan 31 Mawrth 2021 i ddechrau)

Cefndir

Fel sefydliad, rydym yn darparu amrediad o gefnogaeth i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau lleol a'u partneriaid. Ffocws ein gwaith yw helpu gwasanaethau cyhoeddus i weithio'n well drwy ddefnyddio data'n ddoeth.

Y swydd

Ar hyn o bryd rydym yn bwriadu penodi Swyddog Data a fydd yn cefnogi'n gwaith ar draws amrediad llawn ein busnes. Bydd y sawl a benodir yn rhan hanfodol o'r tîm, gan weithio o fewn ein swyddogaeth rheoli data a chefnogi ystod o gasgliadau data ar draws rhychwant ein busnes.

Bydd y swydd yn addas ar gyfer unrhyw un sydd â:

- ddiddordeb mewn gweithio gyda rhifau;
- profiad o weithio gyda neu ddiddordeb mewn defnydd data;
- sgiliau rhifeg da; neu
- llygad graff am fanylion.

Bydd y gallu i weithio yn y Gymraeg yn fantais ar gyfer y swydd hon.

Swyddogaethau'r swydd hon

Bydd y Swyddog Data yn:

- Cynllunio a chyflwyno amrediad o gasgliadau data;
- Cefnogi datblygiad canllawiau perthnasol;
- Ymgymryd â gwaith dilysu data;
- Paratoi data i'w storio yn ein storfa;
- Paratoi a chynnal metadata priodol;
- Paratoi data i'w ledaenu fel y bo'n briodol;
- Sicrhau bod y data rydym yn ei gynhyrchu o'r ansawdd uchaf; a
- Chynnal unrhyw dasgau perthnasol eraill yn ôl yr angen.

Cymwyseddau technegol

Bydd sgiliau technegol cryf o fantais ar gyfer y swydd hon. Bydd gan yr ymgeisydd gorau:

- Profiad o ddefnyddio Microsoft Office;
- Dealltwriaeth gryf o alluoedd Microsoft Excel;
- Profiad o ddefnyddio cronfeydd data er mwyn storio, trin a thrafod data;
- Llygad am fanylion a chywirdeb; a
- Y gallu li gyfathrebu gwybodaeth yn gywir, yn ddiogel ac yn eglur – ar lafar ac yn ysgrifenedig a hynny yn y Gymraeg a'r Saesneg;

Er nad yn hanfodol, byddai profiad o ddefnyddio VBA, SQL, SPSS a/neu Python yn fantais.

Yr hyn y gallwn ei gynnig

Rydym yn sefydliad dysgu sydd ag ymrwymiad i ddysgu a datblygu. Rydym yn gwerthfawrogi'n pobl ac mae hynny'n dangos. Mae'r mwyafrif o'n staff gyda ni ers mwy na deng mlynedd. Rydym wedi cadw'n statws Buddsoddwyr mewn Pobl ers iddo gael ei ddyfarnu'n gyntaf yn 2001.

Gweithredwn gynllun gweithio hyblyg sy'n rhoi'r cyfle i'n gweithwyr fod yn hyblyg o ran eu gwaith ar yr un pryd â sicrhau bod anghenion y busnes a'n cwsmeriaid yn cael eu diwallu.

Yr hyn a ddisgwyliwn gennych chi

Gyda hyblygrwydd fe ddaw gyfrifoldeb. Disgwyliwn i'n staff fod yn gryf eu cymhellant a'u hymrwymiad at ein gwaith ni.

Diddordeb o hyd?

Am ragor o wybodaeth, neu i drafod y cyfle hwn, cysylltwch â Richard Palmer, Pennaeth Adnoddau Dynol ar 029 2090 9500 neu e-bostiwch richard.palmer@data.cymru.

I wneud cais am y swydd hon, anfonwch gopi o'ch CV gyda llythyr sy'n esbonio'n fanwl sut rydych yn bodloni gofynion y swydd at Richard i gyrraedd erbyn **canol dydd ar 15**

Orffennaf 2019 fan bellaf. Bydd cyfweiliadau'n cael eu cynnal yn ein swyddfa yng Nghaerdydd ar **Ddydd Gwener 26 Orffennaf 2019**. Mae'n bosibl y bydd yr ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer fod yn bresennol am y diwrnod cyfan.